Y Comisiwn Etholiadol

Adroddiad chwarterol o roddion a wneir i blaid wleidyddol

Nodiadau esboniadol ar gwblhau'r ffurflen RP10

Cyn llenwi'r ffurflen hon, dylai pob plaid ddarllen ein canllaw rhoddion a benthyciadau er mwyn cael arweiniad cynhwysfawr ar y rheolaethau ar roddion sy'n gymwys i bleidiau gwleidyddol.

Mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol cofrestredig gyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau i'r Comisiwn Etholiadol ar ddiwedd pob chwarter calendr.

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), defnyddir 'buddiant' i gyfeirio at roddion a benthyciadau sydd, gyda'i gilydd, dros £500. Mae'n rhaid i bleidiau gyfansymio unrhyw roddion a benthyciadau a dderbynnir neu a ymgymerir gan yr un ffynhonnell mewn flwyddyn galendr ac adrodd am unrhyw fuddiannau sy'n bodloni'r trothwy adrodd.

Dylai pleidiau gyflwyno adroddiad rhoddion os ydynt wedi cael yr un o'r canlynol yn ystod y chwarter calendr perthnasol:

- unrhyw roddion (gan gynnwys rhoddion wedi'u cyfansymio) o fwy na £11,180 a dderbynnir gan y blaid ganolog
- unrhyw roddion (gan gynnwys rhoddion wedi'u cyfansymio) o fwy na £2,230 a dderbynnir gan uned gyfrifyddu plaid
- unrhyw roddion (gan gynnwys rhoddion wedi'u cyfansymio) o fwy na £2,230 a dderbynnir gan blaid o ffynhonnell; mae'r blaid ganolog eisoes wedi derbyn buddiant o fwy na £11,180 yn yr un flwyddyn galendr
- unrhyw roddion nas caniateir neu roddion nad oes modd eu hadnabod a dderbynnir gan unrhyw adran o blaid.

Yn ogystal, yn Chwarter 4, mae'n ofynnol ar bleidiau i gynnwys manylion unrhyw fuddiannau cyfansymiol o fwy na £11,180 a wnaed i adrannau gwahanol o'r blaid (a elwir hefyd yn 'rhoddion adran 62(12)' a 'benthyciadau 'adran 71M(12)'). **Dim ond yn yr** adroddiadau **rhoddion a benthyciadau** ar gyfer Chwarter 4 y mae angen adrodd am y **buddiannau hyn**.

Rhaid cyflwyno'r adroddiad cyn pen 30 diwrnod o ddiwedd y chwarter calendr (gweler isod). Dylai pleidiau nad oes ganddynt roddion perthnasol i'w hadrodd gofnodi adroddiad o 'ddim' gan ddefnyddio'r ffurflen RP10QN, oni bai eu bod wedi'u heithrio rhag cyflwyno adroddiadau rhoddion.

Mae pob un o'r nodiadau canlynol yn cyfateb i adran wedi'i rhifo ar ffurflen RP10.

1 Manylion plaid gofrestredig

Nodwch enw a chyfeirnod y blaid. Yn ogystal, nodwch y chwarter a'r flwyddyn berthnasol y mae'r adroddiad yn berthnasol iddynt, h.y.:

- Chwarter 1 (Ionawr–Mawrth)
- Chwarter 2 (Ebrill-Mehefin)
- Chwarter 3 (Gorffennaf-Medi)
- Chwarter 4 (Hydref-Rhagfyr).

2 Datganiad a llofnod

Rhaid i'r datganiad hwn gael ei ddiwygio fel y bo'n berthnasol a'i lofnodi gan yr unigolyn a gofrestrwyd yn drysorydd y blaid.

Pwysig: Mae'n drosedd i drysorydd wneud datganiad anwir, a hynny'n fwriadol neu'n ddi-hid, neu fethu â chyflwyno adroddiad cyn pen 30 diwrnod o ddiwedd cyfnod adrodd.

3 Rhoddion ariannol a dderbyniwyd

Enw llawn a chyfeiriad
Rhowch enw llawn a chyfeiriad cofrestredig yr unigolyn neu'r sefydliad wnaeth y rhodd. Ni chaiff cyfeiriadau rhoddwyr unigol eu cyhoeddi ar y gofrestr o roddion.

Os mai unigolyn yw'r rhoddwr, nodwch y cyfeiriad lle y mae wedi'i gofrestru i bleidleisio (os oedd y rhodd yn gymynrodd, nodwch y cyfeiriad diwethaf lle roedd yr unigolyn wedi'i gofrestru i bleidleisio yn ystod y pum mlynedd hyd at ddyddiad ei farwolaeth). Os mai sefydliad yw'r rhoddwr, nodwch gyfeiriad cofrestredig y sefydliad.

Os trosglwyddwyd y rhodd gan ymddiriedolwr ar ran un o fuddiolwyr yr ymddiriedolaeth, nodwch enw llawn a chyfeiriad y buddiolwr.

Statws y rhoddwr
Nodwch statws pob rhoddwr, gan ddewis un o'r categorïau isod. Yn achos cwmni, dylid nodi rhif cofrestru'r cwmni hefyd.

- Unigolyn
- Cwmni
- Plaid gofrestredig
- Undeb Llafur
- Cymdeithas adeiladu sydd wedi cofrestru yn y DU
- Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig
- Cymdeithas cyfeillion neu gymdeithas gofrestredig arall
- Cymdeithas Anghorfforedig

(Noder y dylid cofnodi manylion am rodd gan ymddiriedolaeth eithriedig yn Rhannau 5 a 6 yn hytrach na 3 neu 4).

Cymynrodd
Nodwch ai cymynrodd oedd y rhodd.

Swm o arian
Os oedd y rhodd yn rhodd ariannol, nodwch y swm mewn £ sterling a dderbyniwyd mewn arian parod, siec, drafft bancwr ac ati.

Dyddiad derbyn
Nodwch y dyddiad pan gafodd y blaid y rhodd. Ar gyfer rhoddion ariannol, mae'n bosibl mai'r diwrnod y'i cyflwynwyd i'r blaid fydd y dyddiad hwn neu, os caiff ei dalu'n uniongyrchol i mewn i gyfrif, y diwrnod y'i derbyniwyd yn y cyfrif

Dyddiad y'i derbyniwyd
Nodwch y dyddiad y derbyniwyd y rhodd. Ar gyfer rhoddion anariannol, mae'n bosibl mai'r diwrnod y defnyddiwyd yr eitem dan sylw gyntaf fydd y dyddiad hwn, e.e. y diwrnod y symudodd plaid i mewn i swyddfa ddi-rent.

Derbyniwyd gan
Nodwch pa adran o'r blaid a gafodd y rhodd, e.e. pencadlys y blaid, neu uned gyfrifyddu'r blaid.

4 Rhoddion anariannol a dderbyniwyd

Enw llawn a chyfeiriad
Rhowch enw llawn a chyfeiriad cofrestredig yr unigolyn neu'r sefydliad wnaeth y rhodd. Ni chaiff cyfeiriadau rhoddwyr unigol eu cyhoeddi ar y gofrestr o roddion.

Os mai unigolyn yw'r rhoddwr, nodwch y cyfeiriad lle y mae wedi'i gofrestru i bleidleisio (os oedd y rhodd yn gymynrodd, nodwch y cyfeiriad diwethaf lle roedd yr unigolyn wedi'i gofrestru i bleidleisio yn ystod y pum mlynedd hyd at ddyddiad ei farwolaeth). Os mai sefydliad yw'r rhoddwr, nodwch gyfeiriad cofrestredig y sefydliad.

Statws y rhoddwr
Nodwch statws pob rhoddwr, gan ddewis un o'r categorïau isod. Yn achos cwmni, dylid nodi rhif cofrestru'r cwmni hefyd.

- Unigolyn
- Cwmni
- Plaid gofrestredig
- Undeb Llafur
- Cymdeithas adeiladu sydd wedi cofrestru yn y DU
- Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig
- Cymdeithas cyfeillion neu gymdeithas gofrestredig arall
- Cymdeithas Anghorfforedig

(Noder y dylid cofnodi manylion am rodd gan ymddiriedolaeth eithriedig yn Rhannau 5 a 6 yn hytrach na 3 neu 4).

Cymynrodd
Nodwch ai cymynrodd oedd y rhodd.

Gwerth
Os oedd y rhodd yn rhodd anariannol, llenwch rhann 4 gan nodi manylion am werth y nwyddau neu'r gwasanaeth a ddarparwyd. Ceir gwybodaeth am sut i gyfrifo gwerth rhodd o'r fath yn ein canllaw rhoddion a benthyciadau.

Natur y gymynrodd neu rodd anariannol
Os oedd y rhodd yn rhodd anariannol, cwblhewch rhan 4 gan nodi disgrifiad o'r nwyddau a'r gwasanaethau a gafwyd, gan gynnwys hyd unrhyw gyfnod yr oeddent ar gael e.e. defnydd o gar am ddim am gyfnod o 3 wythnos.

Dyddiad derbyn
Nodwch y dyddiad pan gafodd y blaid y rhodd. Ar gyfer rhoddion ariannol, mae'n bosibl mai'r diwrnod y'i cyflwynwyd i'r blaid fydd y dyddiad hwn neu, os caiff ei dalu'n uniongyrchol i mewn i gyfrif, y diwrnod y'i derbyniwyd yn y cyfrif

Dyddiad y'i derbyniwyd
Nodwch y dyddiad y derbyniwyd y rhodd. Ar gyfer rhoddion anariannol, mae'n bosibl mai'r diwrnod y defnyddiwyd yr eitem dan sylw gyntaf fydd y dyddiad hwn, e.e. y diwrnod y symudodd plaid i mewn i swyddfa ddi-rent.

Derbyniwyd gan
Nodwch pa adran o'r blaid a gafodd y rhodd, e.e. pencadlys y blaid, neu uned gyfrifyddu'r blaid.

5 Rhoddion gan ymddiriedolaethau eithriedig rhoddwyr a ganiateir

Ticiwch y blwch i ddynodi bod y rhodd wedi'i derbyn gan ymddiriedolwr ymddiriedolaeth eithriedig rhoddwr a ganiateir, a rhowch y manylion canlynol am bob rhodd:

- swm neu natur y rhodd a gwerth y rhodd
- y dyddiad y cafwyd y rhodd
- y dyddiad y derbyniwyd y rhodd.
- yr adran o'r blaid a gafodd y rhodd).

At hynny, nodwch yr wybodaeth ychwanegol a restrir isod.

Enw'r ymddiriedolaeth
Nodwch enw'r ymddiriedolaeth sy'n gwneud y rhodd.

Manylion y sawl a sefydlodd yr ymddiriedolaeth
Nodwch enw llawn, cyfeiriad cofrestredig a statws yr unigolyn neu'r sefydliad a sefydlodd yr ymddiriedolaeth (a rhif cofrestru'r cwmni os yw'n berthnasol).

Manylion am y bobl a gyfrannodd at yr ymddiriedolaeth
Rhestrwch enw, cyfeiriad cofrestredig a statws pob unigolyn neu sefydliad sydd wedi cyfrannu at yr ymddiriedolaeth (gan gynnwys drwy gymynrodd), a'r dyddiadau y gwnaed y

trosglwyddiadau. Hefyd, dylid nodi rhifau cofrestru cwmni unrhyw gwmnïau a gyfrannodd at yr ymddiriedolaeth.

6 Rhoddion gan ymddiriedolaethau eithriedig a sefydlwyd cyn 27 Gorffennaf 1999

Ticiwch y blwch i ddynodi bod y rhodd wedi'i derbyn gan un o ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth eithriedig, a rhowch y manylion canlynol am bob rhodd:

- swm neu natur y rhodd a gwerth y rhodd
- y dyddiad y cafwyd y rhodd
- y dyddiad y derbyniwyd y rhodd.
- yr adran o'r blaid a gafodd y rhodd.

At hynny, nodwch yr wybodaeth ychwanegol a restrir isod.

Enw'r ymddiriedolaeth
Nodwch enw'r ymddiriedolaeth a wnaeth y rhodd

Dyddiad sefydlu'r ymddiriedolaeth
Nodwch y dyddiad y cafodd yr ymddiriedolaeth eithriedig ei sefydlu.

Enw llawn yr unigolyn a sefydlodd yr ymddiriedolaeth
Nodwch enw llawn yr unigolyn neu'r sefydliad a sefydlodd yr ymddiriedolaeth yn wreiddiol.

Enwau llawn y bobl a gyfrannodd at yr ymddiriedolaeth
Rhestrwch enwau pob unigolyn neu sefydliad a gyfrannodd at yr ymddiriedolaeth (gan gynnwys drwy gymynrodd), a'r dyddiadau y gwnaed y trosglwyddiad.

7 Taliadau o gronfeydd cyhoeddus

Ar gyfer pob taliad o gronfeydd cyhoeddus, nodwch yr wybodaeth ganlynol:

- swm y rhodd
- y dyddiad y cafwyd y rhodd
- y dyddiad y derbyniwyd y rhodd.
- yr adran o'r blaid a gafodd y rhodd.

Enw llawn a chyfeiriad
Nodwch enw llawn a chyfeiriad y sefydliad sy'n gwneud y taliad i'r blaid, e.e. Swyddfa Ffioedd Tŷ'r Cyffredin.

Math o sefydliad
Nodwch y math o sefydliad a wnaeth y taliad.

Taliadau o gronfeydd cyhoeddus
Nodwch o dan ba ddarpariaeth y gwnaed y taliad i'r blaid, e.e. Penderfyniad Tŷ'r Cyffredin (nodwch ddyddiad a rhif, os yn berthnasol).

8 Ymweliadau a ddarperir

Enw llawn a chyfeiriad
Rhowch enw llawn a chyfeiriad yr unigolyn neu'r sefydliad a ariannodd yr ymweliad.

Dyddiad(au) yr ymweliad
Nodwch y dyddiad(au) y cynhaliwyd yr ymweliad.

Cyrchfan
Nodwch y wlad neu'r gwledydd lle y cynhaliwyd yr ymweliad.

Diben
Rhowch ddisgrifiad byr o ddiben yr ymweliad.

Swm o arian
Nodwch werth y rhodd a wnaed i ariannu'r ymweliad.

Gwerth anariannol
Rhowch amcangyfrif o werth y rhodd os cafodd ei rhoi mewn da.

Derbyniwyd gan
Nodwch pa swyddog neu adran o'r blaid a gafodd y rhodd, e.e. pencadlys y blaid, neu uned gyfrifyddu'r blaid.

Dyddiad derbyn
Nodwch y dyddiad y cafwyd y rhodd, e.e. y dyddiad pan ddarparwyd yr arian ar gyfer yr ymweliad, neu'r dyddiad pan wnaed cynnig i gynnal ymweliad â thâl.

Dyddiad y'i derbyniwyd
Nodwch y dyddiad y derbyniwyd y rhodd, e.e. y dyddiad pan dderbyniwyd gwahoddiad.

9 Rhoddion gan roddwyr nas caniateir

Ar gyfer pob rhodd o ffynhonnell nas caniateir, nodwch y manylion canlynol:

- swm neu natur y rhodd a gwerth y rhodd
- y dyddiad y cafwyd y rhodd
- yr adran o'r blaid a gafodd y rhodd.

Enw llawn a chyfeiriad
Rhowch enw llawn a chyfeiriad y rhoddwr nas caniateir.

Math o sefydliad neu unigolyn a'r rheswm dros beidio â'i ganiatáu
Nodwch statws yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n gwneud y rhodd a pham na chaiff y rhoddwr ei ganiatáu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng nghanllawiau'r Comisiwn ar roddion i bleidiau.

Dyddiad y'i dychwelwyd
Nodwch y dyddiad y dychwelwyd y rhodd.

Dychwelwyd i
Rhowch fanylion yr unigolyn y dychwelyd y rhodd (neu swm cyfatebol) iddo. Dylai'r person hwn fod yr un a gwnaeth y rhodd neu'n berson sy'n gweithredu ar ei ran.

10 Rhoddion gan roddwyr nad oes modd eu hadnabod

Ar gyfer pob rhodd o ffynhonnell nad oes modd ei hadnabod, nodwch y manylion canlynol:

- swm neu natur y rhodd a gwerth y rhodd
- y dyddiad y cafwyd y rhodd
- yr adran o'r blaid a gafodd y rhodd (gweler nodiadau ar lenwi adran B1 a B2 am ganllawiau).

Y modd y gwnaed y rhodd
Nodwch ddisgrifiad byr o'r modd y cynigiwyd y rhodd, e.e. p'un a ddaeth drwy law trydydd parti neu ar ran rhoddwr anhysbys, p'un a gafodd ei dalu i mewn i gyfrif banc, neu p'un a gafodd ei dderbyn mewn arian parod mewn amlen a ddosbarthwyd heb unrhyw arwydd o'i ffynhonnell.

Ymgais i guddio
Nodwch p'un a wnaed unrhyw ymgais i guddio'r rhodd. Os do, nodwch fanylion am sut y darganfuwyd yr ymgais i guddio'r rhodd.

Dychwelwyd i sefydliad ariannol neu unigolyn heblaw am y rhoddwr
Rhowch fanylion y sefydliad ariannol neu'r unigolyn neu'r sefydliad arall y dychwelwyd y rhodd iddo. Os anfonwyd y rhodd i'r Comisiwn Etholiadol, ticiwch y blwch 'Anfonwyd i'r Comisiwn Etholiadol' yn lle hynny.

Dyddiad y dychwelwyd/anfonwyd y rhodd
Nodwch y dyddiad y dychwelwyd neu yr anfonwyd y rhodd i'r Comisiwn.

Dylid dychwelyd ffurflen RP10 i:

Party and Election Finance
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1928
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: pef@electoralcommission.org.uk
Y We: comisiwnetholiadol.org.uk

Pwysig: caiff yr wybodaeth a gyflwynir mewn adroddiadau rhoddion ei chyhoeddi ar y gofrestr o roddion i bleidiau gwleidyddol, sydd ar gael ar wefan y Comisiwn. Fodd bynnag, ni chaiff cyfeiriadau rhoddwyr unigol eu cyhoeddi.